

Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun Absenoldeb a Thâl Babanod Cynamserol a Babanod sydd yn yr Ysbyty

Mae'r cynllun uchod ar gael i gefnogi llesiant gweithiwr yn ystod cyfnod heriol iawn.

Cymhwysedd

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'n holl weithwyr ac eithrio staff ysgolion a reolir yn lleol, y bydd y polisi a fabwysiadwyd gan eu hysgolion priodol yn berthnasol iddynt.

Hefyd, gofynnir am y ddogfennaeth ganlynol i gefnogi cais:

- Ffurflen Gais
- Tystysgrif MAT B1
- Tystysgrif geni
- Llythyr byr gan yr ysbyty'n cadarnhau'r dyddiadau y bu'r baban yn yr ysbyty

Tâl ac Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Absenoldeb Rhieni ar y Cyd, Cymorth Mamolaeth a Thadolaeth ar gyfer Rhieni â Babanod Cynamserol.

- Bydd gan rieni â babanod a anwyd cyn neu'n ystod 37 wythnos yr hawl i gael wythnos ychwanegol o **Absenoldeb Baban Cynamserol a Thâl Baban Cynamserol** am bob wythnos y mae eu baban cynamserol yn treulio yn yr ysbyty cyn ei ddyddiad geni disgwylledig.
- Bydd yr hawl i gael **Absenoldeb Baban Cynamserol** yn cael ei hychwanegu at ddiwedd cyfnod mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth y gweithiwr, ar ôl i'r cyfnod mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth ddod i ben (noder na fydd tâl am absenoldeb ychwanegol os yw rhiant wedi dewis derbyn taliadau ymlaen llaw).
- Gall rhieni ddewis bod **Tâl Baban Cynamserol** yn cael ei dalu fel a ganlyn:
 - Yn ystod y cyfnod Absenoldeb Baban Cynamserol; neu
 - Fel cyfandaliad ymlaen llaw ar ddechrau eich absenoldeb drwy'r gyflogres nesaf sydd ar gael ar ôl rhoi gwybod i'r Tîm Presenoldeb yn ychwanegol at eich absenoldeb a'ch tâl mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth. Mae'n bwysig nodi y bydd hawl arferol y gweithiwr i dâl absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth yn parhau ac ni fydd yn cael ei effeithio gan y cynllun hwn (yn amodol ar dreth incwm, yswiriant gwladol a didyniadau pensiwn, yn unol ag enillion y gweithiwr).

Tâl ac absenoldeb ar gyfer rhieni â baban tymor llawn sydd yn yr ysbyty

- Bydd gan rieni â babanod sy'n gorfod aros yn yr ysbyty yn union ar ôl genedigaeth tymor llawn (ar ôl 37 wythnos) oherwydd salwch yr hawl i gael **Absenoldeb Baban Tymor Llawn yn yr Ysbyty** a **Thâl Baban Tymor Llawn yn yr Ysbyty** am gyfnod o hyd at 4 wythnos.
- Bydd yr hawl i gael **Absenoldeb Baban yn yr Ysbyty** yn cael ei hychwanegu at ddiwedd cyfnod mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth y gweithiwr, ar ôl i'r cyfnod mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth ddod i ben.
- Gall rhieni ddewis bod **Tâl Baban yn yr Ysbyty** yn cael ei dalu fel a ganlyn:
 - Yn ystod y cyfnod Absenoldeb Baban Tymor Llawn yn yr Ysbyty; neu
 - Fel cyfandaliad ymlaen llaw ar ddechrau eich absenoldeb drwy'r gyflogres nesaf sydd ar gael ar ôl rhoi gwybod i'r Tîm Presenoldeb yn ychwanegol at eich absenoldeb a'ch tâl mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth. Mae'n bwysig nodi y bydd hawl arferol y gweithiwr i dâl absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth yn parhau ac ni fydd yn cael ei effeithio gan y cynllun hwn (yn amodol ar dreth incwm, yswiriant gwladol a didyniadau pensiwn, yn unol ag enillion y gweithiwr).

Cyfrifo'r Tâl

Bydd cyfrifo'r tâl ar gyfer Tâl Babanod yn yr Ysbyty a Babanod Cynamserol yn cael ei wneud drwy gyfeirio at oriau contract gweithiwr ar y dyddiad y mae'r baban yn gorfod aros yn yr ysbyty hyd at 37 awr yr wythnos.

Enghreifftiau:

- Mae 'r baban yn cael ei eni am 36 o wythnosau, mae 'r tad yn gyflogai i CCC ac yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth Beth ydym yn ei dalu?
Os yw 'r babi 'n cael ei eni am 36 wythnos a 'i fod yn yr ysbyty tan y tymor llawn, bydd y partner yn derbyn 4 wythnos o dâl baban cynamserol, tâl tadolaeth a gwyliau am hyd at 2 wythnos ac yna absenoldeb baban cynamserol yn dilyn absenoldeb tadolaeth. Yr un yw 'r egwyddor i 'r partner â 'r fam ar yr amod eu bod yn bodloni 'r cymhwyster ar gyfer mamolaeth/tadolaeth.
- Mae gennym gais am fabi yn yr ysbyty yn dilyn genedigaeth am 38 wythnos, gall dderbyn hyd at 4 wythnos o absenoldeb a thâl babi. Felly, os mai dim ond 2 wythnos fydd yn cael eu derbyn i 'r ysbyty am 2 wythnos yn unig ond os bydd ysbyty ar gyfer 6 yn cael uchafswm o 4 wythnos.

